

Rebecca Evans AC/AM
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/RE/0144/17

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Tŷ Hywel,
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

10 Mawrth 2017

Annwyl Simon,

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Diolch i'ch Pwyllgor unwaith eto am ystyried Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn ystod Cyfnod 1. Yn ystod y ddadl am egwyddorion cyffredinol y Bil ar 28 Chwefror, rhoddais gadarnhad y byddwn yn ymateb yn benodol i adroddiad y Pwyllgor a'i wyth argymhelliad. Gobeithio bod y wybodaeth amgaeedig yn dangos bod sylw gofalus wedi'i roi i bob un.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Dr Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

Dymuniadau gorau,

Rebecca

Rebecca Evans AC / AM

Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Diolch i'r Pwyllgor Cyllid am ystyried yn fanwl Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Rwyf wedi ystyried pob un o argymhellion y Pwyllgor ac rwy'n ymateb yn unol â hynny.

Mae a wnelo **Argymhellion 1 a 2** â chostau ychwanegol i awdurdodau lleol yn sgil rhoi'r Bil ar waith. Rwyf wedi cydnabod yn gyson rôl bwysig llywodraeth leol o ran rhoi'r ddeddfwriaeth hon ar waith, yn enwedig drwy gyfrwng y cyfrifoldebau gorfodi sydd ganddynt eisoes. Mae ymdrechion wedi'u gwneud drwy'r Bil i sicrhau bod y baich ariannol ychwanegol ar awdurdodau lleol cyn lleied â phosibl, er enghraifft drwy gyflwyno dulliau ar gyfer adennill costau drwy gyfrwng trefniadau megis codi ffioedd am drwyddedau ar gyfer triniaethau arbennig a derbyniadau yn sgil hysbysiadau cosb benodedig. Rwyf hefyd wedi ymrwymo yn y tymor canolig i dalu am unrhyw wahaniaeth rhwng costau cynnal y gofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin, a'r ffioedd a godir. Serch hynny, rwy'n **derbyn egwyddor** yr argymhellion hyn oherwydd fy mod yn sylweddoli y gall fod angen dod o hyd i gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i roi'r Bil ar waith, yn enwedig yn ystod y cyfnod cychwynnol. Pe bai cytundeb ynghylch darparu cyllid ychwanegol, mae'n debygol y byddai'r arian hwnnw'n cael ei ddarparu ar ffurf grant wedi'i glustnodi i helpu awdurdodau lleol i dalu'r costau yn ystod y cyfnod pontio cychwynnol yn unig. Byddai angen i'r costau yn y tymor hwy fwrw gwreiddiau wrth i awdurdodau lleol gynllunio'u cyllideb gyffredinol.

Mae **Argymhelliad 3** yn ailadrodd argymhelliad y Pwyllgor Cyllid blaenorol i gyhoeddi gwybodaeth am gostau'r gorfodi a'r incwm a ddaw yn sgil hysbysiadau cosb benodedig ar ôl rhoi ar waith y gofrestr genedlaethol o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin. Rwy'n fodlon **derbyn egwyddor** yr argymhelliad hwn. Prif bwrpas y gofrestr yw atgyfnerthu pwysigrwydd amddiffyn pobl ifanc rhag y niwed sy'n gysylltiedig â thybaco a nicotin. Bydd yn rhoi rhestr ddiffiniol i awdurdodau lleol o'r manwerthwyr sy'n gwerthu tybaco a chynhyrchion nicotin, a bydd hynny'n help i adrannau safonau masnach orfodi'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Ni ddisgwylir y bydd creu'r gofrestr yn arwain at nifer fawr o hysbysiadau cosb benodedig; amcangyfrifir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y byddai saith hysbysiad cosb benodedig yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn. Serch hynny, byddaf yn gofyn i'm swyddogion drafod â'r awdurdodau lleol pa mor ymarferol fyddai olrhain lefel yr incwm a geir yn sgil hysbysiadau cosb benodedig, ochr yn ochr â'r costau gorfodi sy'n benodol gysylltiedig â'r gofrestr. Wedi dweud hynny, oherwydd y rhagwelir y bydd rhoi'r gofrestr ar waith yn cael ei integreiddio â darpariaethau eraill, gall fod yn anodd ynysu'r costau gorfodi penodol a ysgwyddir gan awdurdodau lleol yn sgil sefydlu'r gofrestr.

Rwy'n fodlon **derbyn Argymhelliad 4** ynghylch y canllawiau ar gyfer asesu'r effaith ar iechyd. Rwyf wedi pwysleisio'n gyson mai'r bwriad yw i'r Bil arddel dull cymesur o asesu'r effaith ar iechyd ac rwy'n cytuno â dymuniad y Pwyllgor i osgoi dyblygu diangen a chostus. Bwriedir cysoni'r gofynion o dan y Bil â'r asesiadau y mae cyrff cyhoeddus yn eu cynnal eisoes. Er enghraifft, bydd asesu'r effaith ar iechyd yn ategu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 oherwydd bydd yn cynnig dull pwysig i ddangos cyfraniad cyrff cyhoeddus tuag at eu hamcanion llesiant a'r nod cenedlaethol, sef Cymru iachach. Fy mwriad i yw y bydd y canllawiau a gyhoeddir i ategu rheoliadau asesu'r effaith ar iechyd yn cael eu gosod yng nghyd-destun y polisiau sydd ar waith eisoes, a'r asesiadau a'r fframweithiau deddfwriaethol, ac y byddant yn cynnig gwybodaeth ymarferol am sut mae asesu'r effaith ar iechyd yn y ffordd fwyaf ystyrlon ac effeithlon.

Rwy'n fodlon **derbyn Argymhelliad 5** hefyd, a oedd yn gofyn am eglurhad ynghylch y penderfyniad i beidio â chynnwys gwerth ariannol buddion amser teithio yn yr Asesiad

Effaith Rheoleiddiol ar gyfer darpariaethau'r Bil am wasanaethau fferyllol. Pan ystyriwyd gwerth ariannol yr arbedion posibl ar amser teithio yn wreiddiol, fe'u cyfrifwyd drwy ddefnyddio'r fethodoleg a fabwysiadwyd ar gyfer gwerthusiad 2010 y Swyddfa Masnach Deg o'r newidiadau i reoli mynediad a wnaed yn Lloegr yn 2003. Dyma'r fethodoleg fwyaf cadarn sydd ar gael inni o hyd. Er y rhagwelir o hyd y bydd y newidiadau'n arwain at ddsbarthiad mwy priodol o fferyllfeydd ac y bydd gwasanaethau ychwanegol ar gael ar raddfa ehangach, penderfynwyd mynd ati'n ochelgar drwy beidio â chynnwys gwerth ariannol y buddion hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol bresennol. Un o'r prif ystyriaethau wrth benderfynu hyn oedd barn y Pwyllgor Cyllid blaenorol wrth graffu ar y Bil yn y Cynulliad blaenorol pan ddywedodd ei fod yn poeni y byddai'r buddion yn debygol o fod yn fach ar lefel trafodion unigol (h.y. pob ymweliad â'r fferyllfa). At hyn, rwy'n sylweddoli bod cyfyngiadau ar y data hyn, o ran union nifer yr ymweliadau â fferyllfeydd. Mae hyn yn golygu y byddai gwerth ariannol y buddion yn dibynnu ar dybiaethau cyffredinol ynghylch a oedd pobl yn teithio i'r fferyllfa o'u cartref ynteu o'u gwaith a nifer y meddyginiaethau a gâi eu cludo i gartrefi. O ran y ffactorau hyn, penderfynwyd peidio â chynnwys gwerth ariannol y buddion hyn er mwyn dilyn yr un dull gochelgar ag a ddilynir drwy'r Bil i gyd. Mae hyn yn sicrhau mai amcangyfrifon ceidwadol o hyd yw ein hamcangyfrifon cyffredinol o'r buddion.

Mae a wnelo **Argymhelliad 6** ag adolygu effeithiolrwydd darpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â strategaethau lleol ar gyfer toiledau. Rwy'n fodlon **derbyn** yr argymhelliad hwn. Fel egwyddor gyffredinol, fy mwriad yw parhau i adolygu effeithiolrwydd y Bil ar ôl ei roi ar waith, a bydd unrhyw waith i adolygu'r darpariaethau sy'n ymwneud â strategaethau lleol ar gyfer toiledau'n rhan o'r gwaith ehangach hwn i fonitro effaith y ddeddfwriaeth. At hynny mae dulliau adolygu eisoes wedi'u cynnwys yn narpariaethau'r Bil. Bydd yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu strategaethau lleol ar gyfer toiledau ac, fel rhan o'r adolygiad, bydd gofyn iddynt gyhoeddi datganiad am eu cynnydd. Bydd hyn sicrhau tryloywder i aelodau'r cynghorau a'r etholwyr am y camau a gymerir i wella'r ddarpariaeth doiledau ac i hwyluso mynediad iddynt i'r cyhoedd ledled Cymru.

Yn olaf, mae **Argymhellion 7 ac 8** ill dau'n berthnasol i'r is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil. Rwy'n ymwybodol bod hwn hefyd yn fater y mae'r Pwyllgor wedi'i ystyried yng nghydestun Biliau eraill ac rwy'n fodlon **derbyn egwyddor** yr argymhellion hyn i'r graddau eu bod yn benodol berthnasol i'r Bil hwn. Fy mwriad ar gyfer y ddeddfwriaeth hon, yn unol â'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru'n ei wneud fel rheol, yw cyhoeddi Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar wahân ar gyfer is-ddeddfwriaeth wrth i reoliadau gael eu cyflwyno. Bydd hyn yn ein galluogi i adlewyrchu'r wybodaeth fwyaf cywir pan fydd angen y rheoliadau. At hynny, mae adolygiad diweddar o fewn Llywodraeth Cymru o ddeddfwriaeth yn ystod y Pedwerydd Cynulliad wedi arwain at nifer o newidiadau a fydd yn help i sicrhau trefn gyson ar draws Biliau. Er enghraifft, mae'r bennod berthnasol yn Llawlyfr Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn cael ei diweddarau i bwysleisio y dylai Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil gynnwys yr amcangyfrif gorau o gost y ddeddfwriaeth drwyddi draw, gan gynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth gysylltiedig.

Rwy'n fodlon bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil hwn yn gyson â'r ffordd hon o fynd o'i chwmpas hi, oherwydd ei bod yn cynnwys amcangyfrifon o'r costau sy'n codi o'r prif weithgareddau sy'n rhan o weithredu'r ddeddfwriaeth, hyd yn oed pan roddir effaith i hyn drwy reoliadau. Dwy enghraifft benodol o hyn yw lle bydd amcangostau arwyddion newydd ar gyfer mangreoedd agored di-fwg wedi'u cynnwys, er y bydd y gofynion manwl yn cael eu pennu mewn rheoliadau, a bod amcangostau i gyrff cyhoeddus yn sgil cwblhau asesiadau ychwanegol o'r effaith ar iechyd wedi'u cynnwys, er y bydd gofyn pennu mewn rheoliadau yr union amgylchiadau lle bydd gofyn am y rhain.

Byddaf yn diwygio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2, yn unol â'r weithdrefn arferol. Wrth wneud hyn, byddaf yn ystyried unrhyw fanylion pellach a fydd ar gael am gostau is-ddeddfwriaeth. Serch hynny, byddwn yn pwysleisio hefyd bod enghreifftiau lle nad

oes modd amcangyfrif y goblygiadau yn y dyfodol ar hyn o bryd. Er enghraifft, os bydd y dystiolaeth newydd yn awgrymu y dylid ychwanegu triniaethau newydd at y system trwyddedu triniaethau arbennig yn y dyfodol, byddai'r costau a'r buddion yn dibynnu ar ystyried y driniaeth benodol bryd hynny, ac felly nid oes modd cynnig amcangyfrifon ar hyn o bryd.